

Yr Is-Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Dyddiad: 23 Hydref

Amser: 12:45 – 14:45

Teitl: **Papur tystiolaeth - Cyllideb Ddrafft 2015-16
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol;
Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor gennyf fi fel y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ynghylch cynlluniau gwariant mewn perthynas â'r cyllidebau o fewn fy mhortffolio fel yr amlinellir nhw yn y gyllideb ddrafft, a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2014.
2. Mae Atodiad A yn rhoi dadansoddiad o'r Gyllideb Ddrafft, yn ôl Camau Gweithredu, ac yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).
3. Wrth ddatblygu ein cynigion cyllideb ar gyfer MEG Cyfoeth Naturiol, rydym wedi sicrhau bod ein cyllidebau wedi'u halinio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Wrth osod y Gyllideb Ddrafft hon, ein prif flaenoriaeth oedd gwarchod ein buddsoddiadau i drechu tloedi drwy gefnogi twf a swyddi yn ogystal â sicrhau bod ein cyllidebau yn fforddiadwy, yn adlewyrchu ein blaenoriaethau ac yn cynnig gwerth am arian o fewn cyd-destun lleihau cyllidebau refeniw. Dyna pam ein bod wedi diogelu ein cyllidebau rheoli llifogydd ac arfordiroedd a diogelu i raddau helaeth ein cyllid ar gyfer ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni.
4. Mae'r buddsoddiadau yr ydym yn eu gwneud i gefnogi ein hadnoddau naturiol yn awr ac yn y tymor hwy yn allweddol o ran gwariant ataliol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran atal llifogydd, lle mae buddsoddiad i leihau'r risg i'r ardaloedd hyn ac ardaloedd sy'n dioddef yn barod yn angenrheidiol i ddiogelu unrhyw fuddsoddiad pellach mewn tai yng Nghymru. Yn ogystal, mae buddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gwneud ardal yn fwy deniadol i fuddsoddwyr drwy leihau'r risg amgylcheddol.
5. Yn dilyn y gostyngiadau llinell sylfaen i refeniw, gwnaed adolygiadau manwl ar draws y portffolio i sicrhau arbedion wrth leihau'r effaith ar wasanaethau a chyflenwi rhaglenni. Yn ogystal, mae'r newidiadau diweddar i beirianwaith y Llywodraeth wedi cynyddu'r Portffolio Cyfoeth Naturiol o £16.408m gydag ychwanegu'r Camau Gweithredu "Cynllunio" a "Thirwedd a Hamdden Awyr Agored".

Cefndir a Chrynodeb

6. Gellir crynhoi ffigurau'r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

Maes Rhaglenni Gwariant	Cyllideb Atodol Budget 2014-15 £m	Cynlluniau Dangosol .. 2015-16 £m	Newidiadau 2015-16 £m	Cyllideb Ddrafft .. 2015-16 £m
Refeniw:				
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	118.795	117.795	-4.628	113.167
Yr Amgylchedd	82.501	80.000	-4.519	75.481
Y Sylfaen Dystiolaeth	1.136	1.136	-0.200	0.936
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	11.057	10.607	-0.620	9.987
Cynllunio	6.806	6.806	-0.385	6.421
Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	38.041	38.041	-7.385	30.656
Amaeth, Bwyd a'r Môr	62.373	55.915	-3.838	52.077
CYFANSWM Y REFENIW	320.709	310.300	-21.575	288.725
% y gostyngiad refeniw		3.24		9.97
Cyfalaf:				
Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	101.084	95.084	5.000	100.084
Yr Amgylchedd	0.795	0.795		0.795
Y Sylfaen Dystiolaeth	0.038	0.038		0.038
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	2.850	2.850	0.190	3.040
Amaeth, Bwyd a'r Môr	11.723	11,723		11.723
CYFANSWM Y CYFALAF	116.490	110.490	5.190	115.680
CYFANSWM CYLLIDEB DEL	437.199	420.790	-16.385	404.405
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (darpariaethau pensiwn)	2.900	2.900	0	2.900
CYFANSWM Y GYLLIDEB	440.099	423.690	-16.385	407.305

Dyraniadau Refeniw

7. Yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16, mae DEL Cyfoeth Naturiol yn lleihau o £21.575m o'i gymharu â'r dyraniadau 2015/16 dangosol blaenorol ac o £31.984m o'i gymharu â 2014-15. O'r swm hwn mae £21.095m yn

ymwneud â gostyngiadau refeniw yn cael eu dychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r newidiadau yn y gyllideb yn cael eu nodi isod :

- Datblygu a gweithredu polisi, cyfathrebiadau, deddfwriaeth a rheoliadau newid hinsawdd, atal allyriadau, a thlodi tanwydd; Gostyngiad o £0.385m mewn perthynas â gostyngiadau yn y gyllideb y cytunwyd arnynt;
- Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth: Gostyngiad o £2m yn gyfnewid am £2m o gyfalaf oddi wrth Wastraff;
- Hwyluso buddsoddiad glân a diogel mewn ynni a diwydiant; Gostyngiad o £0.2m mewn perthynas â gostyngiadau yn y gyllideb y cytunwyd arnynt;
- Rheoli a gweithredu'r Strategaeth Gwastraff a chaffael Gwastraff: gostyngiad o £1m fel rhan o ostyngiad a gynlluniwyd yn y gyllideb i'r grant rheoli Gwastraff Cynaliadwy a £2.042m pellach mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt yn y gyllideb;
- Cyflwyno polisiâu gwarchod natur a choedwigaeth: Mae cynnydd o £0.513m yn ymwneud ag adlinio'r gyllideb o £0.894m a £0.381m o ostyngiad y cytunwyd arno yn y gyllideb;
- Rheoli a gweithredu gwelliannau amgylcheddol: gostyngiad o £0.5m mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt yn y gyllideb;
- Noddi a rheoli cyrff cyflenwi: gostyngiad o £2.501m mewn perthynas ag ad-dalu arian Buddsoddi i Arbed; £1.344m i adlinio'r gyllideb yn ogystal â £3.188m o ostyngiadau y cytunwyd arnynt i'r gyllideb;
- Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol i gefnogi gwaith yr Adran: Gostyngiad o £0.2m mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt i'r gyllideb;
- Hyrwyddo a chefnogi tirluniau a warchodir, ehangu mynediad i fannau gwyrdd: Gostyngiad o £0.46m y cytunwyd arno yn y gyllideb a £1.27m arall mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt yn y gyllideb;
- Cynllunio a Rheoleiddio: Gostyngiad o £0.385m mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt yn y gyllideb;
- Rheoli a chyflenwi cynllun i ddileu TB a chlefydau Endemig eraill: Gostyngiadau o £1.585m o adlinio'r gyllideb a £5.8m o ostyngiadau y cytunwyd arnynt i'r gyllideb;
- Datblygu a chyflwyno polisiâu a rhaglenni troswaol ar Amaeth, Bwyd a'r Môr: cynyddwyd o £3.403m drwy adlinio'r gyllideb;

- Gweinyddu a gwneud taliadau'r PAC (CAP) yn unol â rheolau'r UE a LIC: Cynyddwyd drwy £0.26m o adlinio'r gyllideb yn ogystal â gostyngiad o £0.3m o ostyngiad y cytunwyd arno yn y gyllideb;
- Cyflawni'r rhaglenni o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig: Gostyngiad o £6.458m mewn perthynas â gostyngiadau cyllideb a gynlluniwyd yn flaenorol a £5.093m pellach mewn perthynas â gostyngiadau y cytunwyd arnynt yn ddiweddar yn y gyllideb;
- Datblygiad yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig: Gostyngiad o £0.2m mewn perthynas ag adliniadau'r gyllideb;
- Datblygu a rheoli diwydiant morol, pysgodfeydd a dyframaeth Cymru gan gynnwys gorfodi deddfwriaeth Pysgodfeydd Cymru: Cynyddwyd o £0.397m drwy adlinio'r gyllideb i gyd-ariannu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop;
- Bodloni anghenion cymunedau gwledig a phrawfesur camau gweithredu LICC o ran eu polisïau gwledig Gostyngiad o £2.305m o ganlyniad i adlinio'r gyllideb.

Dyraniadau Cyfalaf

8. Yng nghyllideb ddrafft 2015-16, mae DEL Cyfoeth Naturiol yn gostwng o £6m o'i gymharu â 2014-15, ond wedyn yn cynyddu o £5.190m sy'n cynnwys y canlynol:
 - Mae datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth wedi cynyddu o £1m. Mae hyn oherwydd gwahaniaethau yn y dyraniadau cyfalaf ychwanegol a gyhoeddwyd yn flaenorol a throsglwyddo cyfalaf gwerth £2m o'r Cam Gweithredu 'Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen Caffael Gwastraff ".
 - Mae hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchoddedig, a mynediad ehangach i fannau gwyrdd wedi cynyddu o £0.190m: Yn ystod y paratodau at y gyllideb o dan y MEG Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon blaenorol nodwyd pwysau cyfalaf ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a chafodd £0.190m pellach ei ailddyrannu o du mewn i'r MEG.
9. Yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15, cafodd cyllideb gyfalaf Cyfoeth Naturiol 2015-16 ei chynyddu o £42.5m, yn cynnwys y dyraniadau canlynol i gefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru:
 - Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr: Bu cynnydd o £7.5 miliwn yn 2014-15 a £12.5m yn 2015-16 i leihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer tua 2,000 o gartrefi, busnesau a seilwaith hanfodol a gwella gwytnwch cymunedau i wrthsefyll lifogydd;

- Rhaglen Tlodi Tanwydd: Buddsoddi mewn trechu tlodi tanwydd mewn tai yw un o'n blaenoriaethau buddsoddi fel y nodir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac i gefnogi hyn dyrannwyd £35m o Gyfalaf ychwanegol yn 2014-15 a £35m pellach yn 2015-16. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar raglenni Arbed ECO i wella effeithlonrwydd ynni 70,000 o gartrefi sy'n bodoli eisoes yng Nghymru i ddod â nhw i fyny at safon effeithlonrwydd ynni dderbyniol (gradd ynni D o leiaf) erbyn Mawrth 2016.

Gwariant Ataliol

10. Mae llawer o'n rhaglenni ar draws y portffolio Cyfoeth Naturiol yn ataliol o ran natur, er enghraifft, mae ein buddsoddiad mewn Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn hanfodol i liniaru risgiau a lleihau'r tebygolrwydd o golledion economaidd mawr ar ôl llifogydd. Rydym yn buddsoddi dros £50m yn ystod 2015-16 mewn rhaglenni hanfodol i amddiffyn rhag llifogydd. Mae gan weithgarwch buddsoddi mewn atal llifogydd gysylltiadau amlwg â chreu a gwarchod swyddi. Mae ymchwil ddiweddar yn dangos bod buddsoddiad o £100m yn lleihau'r perygl ar gyfer 7,000 o gartrefi a busnesau, yn diogelu dros 14,000 o swyddi ac yn creu dros 1,000 o swyddi. Mae buddsoddiad llifogydd hefyd yn dod â manteision ychwanegol posibl i drafnidiaeth, seilwaith, twristiaeth, hamdden ac adfywio.
11. Enghraifft arall fyddai o ran y cynllun grant Trefi Taclus (sydd bellach yn ymgorffori'r grant Lleoedd Tawelach, Gwyrddach a Glanach) sy'n annog ceisiadau am brosiectau sy'n cwmpasu gwariant ataliol drwy ddelio â materion fel sbwriel, baw cŵn a mesurau i wella ansawdd yr aer.

Y Rhaglen Lywodraethu

12. Mae pob un o'n cyllidebau wedi eu halinio ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu ac mae modd eu cyflawni o fewn y gyllideb sydd ar gael. Mae'n gwestiwn o allu blaenoriaethu'r gwaith o'r tu mewn i'r cyllidebau cyffredinol. Dyma'n amlwg fydd yr her a byddaf yn sicrhau y byddwn ni a'n partneriaid yn canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau hyn. Yn ogystal, rwyf wedi sicrhau fy mod wedi sefydlu system gadarn o fonitro a gwerthuso yn arbennig i ddangos gwerth am arian ar draws pob un o'n rhaglenni gwariant. Bydd Atodiad A yn rhoi manylion yn ôl BEL am bob un o'n cyllidebau sydd wedi'u halinio ag ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu a rhoddir tystiolaeth bellach isod yn y blaenoriaethau cyllidebol.

Deddfwriaeth

13. Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda chymheiriaid yn yr Adrannau Cymunedau a Threchu Tlodi a Thai ac Adfywio i sicrhau bod darpariaethau Bil yr Amgylchedd yn alinio gyda rhai Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Cynllunio. Rhoddwyd sylw arbennig i gyflawni'r nod a rennir ar gyfer y Biliau hyn: sef symleiddio ac egluro prosesau rheoleiddio presennol a sefydlu pensaernïaeth ddeddfwriaethol effeithiol a chydgysylltiedig ar gyfer datblygu cynaliadwy.

14. Bydd y Bil Amgylchedd yn sefydlu fframwaith ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ymgorffori datblygu cynaliadwy fel egwyddor arweiniol i helpu i gyflwyno lles amgylcheddol. Bydd y ffordd honno weithio yn llywio'r penderfyniadau gwell a'r meddwl tymor hir sydd wrth wraidd Biliau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn helpu i wneud y gorau o'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i Gymru. Mae'r gyllideb ar gyfer y Bil Amgylchedd yn cael ei chynnwys o fewn y Cam Gweithredu 'Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ar ddatblygu a gweithredu newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a pholisi tlodi tanwydd,' ac amcangyfrifir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn £68,000 yn 2015/16 ac mae'r adnoddau staff i gael eu rheoli o fewn cyllidebau'r adnoddau adrannol.

15. Rydym wedi gweithio'n agos i sicrhau aliniad rhwng y Bil Amgylchedd a Chynllunio. Mae ffordd y Bil Amgylchedd o weithio ar sail ardal yn anelu at ddarparu sylfaen dystiolaeth o ansawdd uwch ynghylch cyfleoedd a risgiau mewn ardal i ddarparu sylfaen dystiolaeth glir a chyson a allai lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hyn yn cefnogi amcanion y Bil Cynllunio i wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau cynllunio lleol. Bydd costau'r bil cynllunio yn cael eu cynnwys o fewn y Cam Gweithredu "Cynllunio a Rheoleiddio" a bydd costau adnoddau staff yn cael eu rheoli o fewn y cyllidebau adnoddau adrannol.

16. Ni fydd y dyletswyddau a nodir yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu rhoi ar waith tan y flwyddyn ariannol 2016-17. Bydd y costau o baratoi ar gyfer gweithredu sy'n dod yn ddyledus i'r Adran Cyfoeth Naturiol yn cael eu talu o'r Cam Gweithredu "Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd", gyda dyraniad cyllideb o £0.776m a bydd adnoddau staff yn cael eu rheoli o fewn y cyllidebau adnoddau adrannol.

17. O ran Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014: Rwyf wedi dyrannu cyllideb (£183,000) sy'n cwmpasu costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf megis gorfodi darpariaethau'r Ddeddf a sefydlu a gweithredu'r Panel Cynghori Amaethyddol i Gymru. Mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn cyfrif am gymorth Ysgrifenyddiaeth, ffioedd aelodau'r panel, costau cyngor cyfreithiol, ac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â chynnal y panel. Lanswyd ymarfer ymgynghori 12 wythnos ar 7 Awst, 2014.

18. Mae'r portffolio yn gyfrifol am weithredu nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys y Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013, Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007 a'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Pridd ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010. Nid oes unrhyw gyllideb a ddyrannwyd ar wahân sy'n gysylltiedig â gweithredu deddfwriaeth eilaidd.

Cydraddoldeb

19. Cafodd asesiadau effaith integredig eu cynnal eleni ar gyfer y llinellau cyllideb sy'n dangos y newidiadau cyllidebol mwyaf sylweddol o fewn y portffolio Cyfoeth Naturiol. Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, roedd nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effaith Integredig oedd yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effaith integredig yn cael eu prif ffrydio o fewn gosod polisi yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.
20. Mae'r canlyniadau o'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd o ganlyniad i'r penderfyniadau cyllidebol hyn. Er enghraifft, mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai'r gostyngiad yn y gyllideb gwastraff gael ei reoli gan awdurdodau lleol drwy wella effeithlonrwydd / newid arferion ac felly bydd yr effaith ar grwpiau gwarchoddedig yn ddibwys.
21. Mae rheoli adnoddau naturiol dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yn cyfrannu at Erthygl 24 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gan ei fod yn hybu'r gwaith o gynnal amgylchedd naturiol cynaliadwy y gallai plant ei fwynhau. Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru helpu plant a phobl ifanc i gysylltu â, a deall pwysigrwydd, ein hadnoddau naturiol a'u perthnasedd i fyw o ddydd i ddydd. Ni fydd y gostyngiad yn y gyllideb a briodolir i Gyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar y gweithgaredd hwn.
22. Ymatebodd Plant yng Nghymru (CIW) yn ddiweddar i'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar yr Ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Datblygu Gwledig arfaethedig 2014-20. "Plant yng Nghymru" yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru, a ddaw â sefydliadau ac unigolion o bob disgyblaeth a sector at ei gilydd. Ei rôl yw gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn realiti yng Nghymru. Croesawodd Plant yng Nghymru fod yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod mai cadw pobl ifanc yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu cefn gwlad Cymru. Mae pobl ifanc yn ei chael yn arbennig o anodd dod o hyd i waith, cyfleoedd hyfforddi, gweithgareddau cymdeithasol, tai fforddiadwy, a chyrraedd gwasanaethau ac ati mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn hyd yn oed yn fwy o her i bobl ifanc a theuluoedd sy'n dymuno byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cronfeydd a rhaglenni Ewropeaidd

23. Mae Twf Gwyrdd yn llwybr o dwf economaidd sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Rydym yn datblygu opsiynau i gefnogi ac annog buddsoddiad mewn seilwaith ynni ac adnoddau yng Nghymru. Mae'r dewisiadau hyn yn cynnwys *Twf Gwyrdd Cymru*, cronfa bosibl a fydd yn un o golofnau canolog agenda flaenllaw Twf Gwyrdd y Llywodraeth. Bydd yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy yn gyhoeddus, yn cefnogi buddsoddi gwyrdd, yn lleihau allyriadau carbon, ac yn darparu defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau naturiol. Bydd Twf Cymru yn creu capasiti adnewyddadwy ychwanegol sy'n cyfateb i o leiaf 10% o anghenion trydan Cymru dros 20 mlynedd, a bydd o fudd i economi a phobl Cymru drwy ddod â buddsoddiad ychwanegol a chreu / diogelu swyddi drwy brosiectau ynni adnewyddadwy a lleihau adnoddau.
24. Dyrannwyd £5m cychwynnol i ni yn ystod arian cyfalaf 2015/16 drwy gyllid y trafodion ariannol ad-daladwy i ddatblygu achos busnes Twf Gwyrdd a'r opsiynau sy'n cynnwys cyd-ariannu gyda Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) a/neu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd (GIB).
25. Mae Cam Gweithredu "Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru" a "Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig" yn gyfrifol am weinyddu pob agwedd o Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr Undeb Ewropeaidd (UE) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys talu Cymorth uniongyrchol i ffermwyr Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGF) - y Cynllun Taliad Sengl, a chymorth Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) - y Cynllun Datblygu Gwledig.
26. Mae gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl yn effeithiol yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r taliadau yn cael eu hariannu 100 y cant gan yr UE, cyfanswm o tua £300 miliwn y flwyddyn. Os nad ydym yn bodloni'r gofynion llym a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer rheoli arian yr UE yn effeithiol, mae perygl o golli'r arian hy mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chosbi. O'i chymharu â gweinyddiaethau eraill yn y DU, mae gan Gymru record dda o fodloni'r Comisiwn ynghylch sut rydym yn defnyddio adnoddau'r UE.
27. Fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2007-2013 yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r Cynllun yn werth £ 847m dros y cyfnod o 7 mlynedd, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyfrannu tua £550m tuag ato.
28. Bydd cyfanswm y pecyn ariannu ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn 2014-20 yn gofyn am ryw £400m o gyd-ariannu domestig. Mae hyn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, ar ôl cynnwys y trosglwyddo o Golofn 1 a chyfraniad yr

UE, i dros £950m. Mae'n bwysig fod y gyllideb cyd-ariannu domestig yn gallu ariannu ymrwymadau Llywodraeth Cymru, nid yn unig yn 2015/16, ond yn gynaliadwy dros gyfnod y rhaglen.

29. Mae'r Rhaglen Ewropeaidd bresennol yn darparu £50 miliwn o grant ar gyfer cynlluniau llifogydd ac amddiffyn yr arfordir ar gyfradd grant o ryw 45%. Mae'r grant llawn yn agos at gael ei ddyrannu ac mae darpariaeth wedi cael ei gwneud o fewn y gyllideb llifogydd ar gyfer arian cyfatebol. Mae'r rhaglen chwe blynedd gyfredol yn dod i ben yn 2015. Gan symud ymlaen i'r rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd, nid oes darpariaeth ar gyfer prosiect llifogydd ar ei ben ei hun fel yn achos y cyllid cyfredol. Fodd bynnag, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn ymgorffori rheoli perygl llifogydd mewn prosiectau eraill (ee cynlluniau adfywio, prosiectau twristiaeth).
30. Mae prosiect Arbed presennol ERDF yn £45m dros 3 blynedd gyda £33m o'r ERDF. Mae gweddill yr arian yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. Amcanion buddsoddi cyffredinol y prosiect yw: gwella effeithlonrwydd ynni o leiaf 4,790 o gartrefi sy'n bodoli eisoes yng Nghymru erbyn diwedd 2015 a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 11.6 ktCO2 erbyn diwedd 2015. Gan edrych ymlaen, mae Blaenoriaeth 3 rhaglen 2014-2020 yn canolbwyntio ar Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni. Mae tua 30% o'r cyllid sydd ar gael o'r Flaenoriaeth hon i gael ei wario ar effeithlonrwydd ynni, gyda'r gweddill yn cael ei wario ar ynni morol ac ar ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.
31. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn Ynni'r Fro o'r tu mewn i'n cyllidebau effeithlonrwydd ynni sy'n cefnogi grwpiau cymunedol bach i symud ymlaen gyda phrosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa ganolig, er mwyn creu cyllid sy'n eiddo i'r gymuned. Ar y cyfan mae'r arian hwn yn cael ei gymhwyso at brosiectau i drechu tloidi, ymdrin ag effeithlonrwydd ynni a datblygu cymunedau mwy cynaliadwy.

Tlodi Tanwydd

32. Rydym wedi parhau i ddiogelu buddsoddiad mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni fel NEST ac Arbed i raddau helaeth a byddwn yn buddsoddi dros £56m yn ystod 2015-16, gan gynnwys cyllid cyfalaf ychwanegol o £35m. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu targedu at wella effeithlonrwydd ynni cymunedau a helpu i drechu tloidi tanwydd, lleihau costau ynni, a lleihau allyriadau carbon yn ogystal â darparu manteision cymunedol sylweddol a datblygu'r farchnad mewn effeithlonrwydd ynni. Ochr yn ochr â'r cyllid hwn byddwn yn ceisio cynyddu buddsoddiad trwy ddenu'r rhwymedigaeth cwmni ynni newydd, ECO, i mewn i Gymru i weithredu ochr yn ochr â'n rhaglenni Nyth ac Arbed a thrwy bartneriaeth ar y cyd gydag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chwmnïau ynni.
33. Oherwydd newidiadau diweddar i ECO a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, mae amrywiol gamau yn cael eu cymryd i sicrhau trosoledd cyllid

ECO megis rhaglen gyfochrog o weithgareddau Arbed a ariennir gan ECO i gael ei chyflwyno ochr yn ochr â chynllun Arbed 2 a chynllun grant i awdurdodau lleol ddarparu rhaglenni effeithlonrwydd ynni sy'n seiliedig ar ardaloedd sy'n tynnu ECO i mewn.

Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir:

34. Rwyf wedi diogelu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer llifogydd a diogelu'r arfordir ar £50m yn 2015/16 gan fod hyn yn flaenoriaeth allweddol o ran gwariant ataliol, gan greu swyddi a chyfrannu at yr agenda tlodi. Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad o lifogydd arfordirol, yn dilyn stormydd y gaeaf yn Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014. Nododd rhan gyntaf yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, o ganlyniad i'n buddsoddiad parhaus mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordirol, yn ystod stormydd y gaeaf, fod llai nag 1% o'r eiddo a'r tir amaethyddol a allai fod wedi bod mewn perygl wedi dioddef llifogydd. Yn ogystal â'r cyllid llinell sylfaen, rydym yn paratoi cynnig am gyllid arloesol i gefnogi'r rhaglen rheoli risg arfordirol. Bydd hyn yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau addasu arfordirol yn unol â Chynlluniau Rheoli Traethlin Cymru.

Hub Data Wales

35. Un o egwyddorion allweddol yr Hub Gwybodaeth yw sicrhau bod yr hub yn cael ei ddatblygu yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol i ychwanegu gwerth at y rhwydwaith presennol. Mae datblygiad yr hub wedi adeiladu ar systemau sy'n bodoli'n barod, gan ddefnyddio'r sgiliau a'r adnoddau 'mewnol' sy'n bodoli eisoes. Mae fersiwn cyntaf y wefan Hub Gwybodaeth 'Ein Hamgylchedd' bellach yn fyw a gofynnir am sylwadau arni. Mae'r cam nesaf yn cynnwys datblygu cynllun strategol a fydd yn ymdrin â'r gofynion o ran adnoddau ar gyfer datblygiad pellach a arweinir gan ddefnyddwyr a chynnal yr Hub yn y tymor hir. Bydd defnydd a gwerth y wefan yn cael eu monitro'n ofalus trwy ystadegau defnydd, o'r adborth a geisir drwy'r wefan a thrwy drafodaethau uniongyrchol gyda rhanddeiliaid.

Y Gronfa Natur

36. Defnyddir y Gronfa Natur i gefnogi gweithgaredd mewn saith o Ardaloedd Gweithredu Byd Natur ar draws Cymru: Bannau Brycheiniog, Mynyddoedd Cambria, Dyffryn Conwy, Arfordir Sir Benfro, Cymoedd De Cymru, Y Berwyn a'r Migneint a Phenrhyn Llŷn. Mae dau brosiect wedi'u cymeradwyo ac mae un arall yn cael ei ystyried. Mae un prosiect a gymeradwywyd yn brosiect cydweithredol ar raddfa tirwedd dan arweiniad Coed Cymru yn cydweithio gydag ymddiriedolaethau afonydd a thirfeddianwyr lleol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bedair o'r Ardaloedd Gweithredu Byd Natur.

37. Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd adroddiad 'Asesu Potensial y Farchnad Talu am Ecosystemau (TWE/PES) i Gymru'. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod yna nifer o ystyriaethau/rhwysterau y mae angen inni roi sylw iddynt wrth i ni ddatblygu polisi o amgylch TWE/PES yng Nghymru ac

mae'n gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys y defnydd o gynlluniau peilot i ddatblygu marchnadoedd yng Nghymru. Mae grŵp llywio TWE wedi cael ei ffurfio i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Map Ffyrdd TWE. Bydd y Map Ffyrdd yn manylu ar ein camau nesaf yn natblygiad TWE yng Nghymru a chaiff ei gyhoeddi cyn diwedd eleni.

Môr a Physgodfeydd

38. Rwy'n ymrwymo cyllid refeniw o £1.9m tuag at y rhaglenni Môr a Physgodfeydd sy'n cynnwys yr arian cyfatebol ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) a'r Cynllun Gweithredu Morol. Dechreuodd y gwaith ar Gynllun Cenedlaethol Cymru gyda'r datganiad o Gyfranogiad Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn unol â Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) i fod i gael ei gyhoeddi yn 2015. Sicrhawyd bod Ymarferiad Cwmpasu Strategol (SSE) drafft, sydd yn ystyriaeth o'r dystiolaeth ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Porthol Tystiolaeth Cynllunio Morol rhyngweithiol a'r Weledigaeth ddrafft ar gyfer y Cynllun ynghyd ag amlinelliad o gynnwys y Cynllun ar gael i roi sylwadau yn eu cylch ar wefan Llywodraeth Cymru.

Y Strategaeth Adfer Natur

39. Bydd y Cynllun Adfer Natur Cymru yn cyflawni ein hymrwymiad, o dan y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol (CBD), i fod â strategaeth bioamrywiaeth cenedlaethol a chynllun gweithredu erbyn 2015. Mae nodau a thargedau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol yn cwmpasu pob sector o gymdeithas ac yn cyfeirio'n benodol at amaethyddiaeth, pysgodfeydd a choedwigaeth. Mae camau gweithredu'r Cynllun Adfer Natur Strategol yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol yn effeithiol, yn bennaf drwy'r Bil Amgylchedd, cyflwyno Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru, hwyluso integreiddio polisi ar draws sectorau, ariannu ein partneriaid; a nodi a defnyddio offerynnau ariannol eraill; adolygu safleoedd a rhywogaethau dynodedig; monitro ac adolygu offerynnau rheoleiddio; annog cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, a gwella ein sylfaen dystiolaeth.

Y Strategaeth Dŵr

40. Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ein Strategaeth Dŵr i Gymru. Mae hon yn nodi cyfeiriad polisi dŵr yng Nghymru yn y dyfodol a sut y byddwn yn sicrhau bod dŵr yn parhau i gwrdd ag anghenion cymunedau, busnes a'r amgylchedd. Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yr hydref hwn a bydd yr ystyriaeth a roddaf i'r ymatebion hyn yn llywio datblygiad y strategaeth derfynol. Mae cyllideb o £0.27m wedi'i dyrannu o fewn llinell wariant y gyllideb (BEL) rheoli perygl llifogydd a'r gyllideb dwr, sy'n cefnogi darparu arbenigedd technegol mewn perthynas â materion dwr, tystiolaeth ac ymchwil i gefnogi amcanion y Strategaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoleiddwyr.

41. Yn ogystal, mae £572m neu 60% o gyfanswm cyllideb y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 yn cael ei ddyrannu i fesurau ar sail ardal sy'n cynnwys mecanwaith cyfalaf a refeniw cymysg wedi'i deilwra o amgylch y gwaith o gyflawni'r Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Bydd y cyllid hwn yn helpu i gyfrannu at gyflawni llawer o'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth Dwr. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol hefyd am reoleiddio'r diwydiant dŵr yng Nghymru. Bydd y diwydiant yn buddsoddi dros £3 biliwn rhwng 2015-20 ar wella gwasanaethau dŵr yn unol â'r uchelgeisiau a nodwyd yn y Strategaeth Dwr.

Coedwigaeth

